**Atodiad – Argymhellion Cyffredinol Adolygiad Atebolrwydd GIG Cymru y Grŵp Cynghori Gweinidogol ac Ymateb Cychwynnol Llywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 1:** Mae llywodraethiant yn fodd o gyflawni rhywbeth, nid yn nod ynddo’i hun. Mae angen gweledigaeth a strategaeth uchelgeisiol ar gyfer Cymru wedi'i seilio ar gyfres glir o flaenoriaethau.

- Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos bod y weledigaeth a'r strategaeth sylfaenol a nodir yn ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol *Cymru Iachach* yn parhau'n berthnasol. Rydym wedi adnewyddu'r camau polisi i gyflawni *Cymru Iachach* i sicrhau mai dyma'r rhai cywir yn yr hinsawdd sydd ohoni. Fodd bynnag, mae yna ddadl dros gyhoeddi datganiad gweledigaeth cryno sy'n nodi'r GIG yr ydym am ei weld yn y dyfodol, er mwyn darparu adnodd hygyrch i siapio disgwyliadau ac ymddygiadau.
- Dylai cynlluniau'r GIG nodi'r hyn y mae sefydliadau'n bwriadu ei gyflawni, a dylai sefydliadau gael eu dal i gyfrif yn erbyn y blaenoriaethau hynny. Mae'r broses wedi'i nodi yn y *Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio*.
- Rydym yn adolygu proses gynllunio bresennol y GIG fel y bydd fframweithiau cynllunio a pherfformiad yn cael eu dwyn ynghyd yn y dyfodol. Yn y cyfamser, bydd ein canllawiau cynllunio yn nodi'r metrigau allweddol hynny yr ydym yn disgwyl i'r GIG ganolbwyntio fwyaf arnynt.

**Argymhelliad 2:** Mae angen brys i symleiddio'r sefyllfa gyflawni a'r trefniadau cysylltiedig ar gyfer llywodraethiant.

- Byddwn yn chwilio am ffyrdd o helpu pobl a sefydliadau i lywio'u ffordd drwy’r GIG, gan gynnwys drwy offer ymarferol a diweddariad i *Ganllaw Llywodraethu Da GIG Cymru.*
- Yn sgil diwygiadau blaenorol i'r system iechyd a gofal, byddwn yn nodi, mewn ffordd glir a hygyrch, rolau a chyfrifoldebau cyrff a sefydliadau o fewn y GIG, gan gynnwys Gweithrediaeth y GIG.
- Mae'r *Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio* yn nodi'r atebolrwydd, y rolau a'r cyfraniadau mewn perthynas â pherfformiad ac uwchgyfeirio.
- Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf yn ystod y 18 mis nesaf ar wella perfformiad y GIG a chefnogi'r adferiad parhaus wedi'r pandemig. Sefydlwyd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant y GIG ym mis Hydref a bydd yn darparu cyngor yn gynnar yn 2025.
- Mae Gweithrediaeth y GIG yn hwyluso cydweithio a rhannu arferion da ar draws byrddau iechyd. Mae materion gweithredol yn nwylo'r byrddau iechyd, ac mae hynny'n briodol, ond byddwn yn ceisio gweithredu egwyddor o "addasu, mabwysiadu neu gyfiawnhau" mewn perthynas ag arloesi effeithiol. Byddwn yn ceisio datblygu fframweithiau mwy cenedlaethol, ar sail "unwaith i Gymru", i'w defnyddio yn y cyd-destun lleol. Byddwn yn archwilio sut y gallai'r Cyd-bwyllgor Comisiynu newydd fod yn fforwm i gefnogi penderfyniadau cenedlaethol, uwchranbarthol neu ranbarthol.
- Pan fo angen, byddwn yn barod i ddefnyddio cyfarwyddydau Gweinidogol i oresgyn rhwystrau i gydweithredu rhanbarthol effeithiol. Mae sefydlu cyd-bwyllgor newydd Hywel Dda a Bae Abertawe yn enghraifft dda o fecanwaith i gefnogi cydweithio rhanbarthol ar gyfer byrddau iechyd eraill.

**Argymhelliad 3:** Mae angen llawer mwy o dryloywder ynghylch y ddarpariaeth y mae Byrddau Iechyd yn atebol amdani. Dylai'r atebolrwydd hwn fod yn seiliedig ar y strategaeth a chael ei gytuno bob blwyddyn.

- Mae'r adroddiad yn cyflwyno achos cryf dros ailffocysu ein blaenoriaethau, ond rhaid inni weld perfformiad yn gwella'n sylweddol yn erbyn y blaenoriaethau presennol cyn y gallem gyflawni hynny'n llawn.
- Mae'r *Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio* newydd yn cynnwys ymyrraeth gynharach i gefnogi sefydliadau ac mae'n nodi meini prawf ar gyfer isgyfeirio.
- Mae gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd statudol i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch newid i wasanaethau. Sefydlwyd Llais yn 2023 gyda chylch gwaith i sicrhau bod cynrychiolaeth o blith y cyhoedd ac ymgynghori â'r cyhoedd yn cael eu hystyried. Gall Llais hefyd gyflwyno sylwadau i sefydliadau'r GIG am unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau iechyd. Nid ydym yn credu bod yr achos dros gomisiynydd annibynnol newydd yn argyhoeddi gan y gallai hynny ddrysu llinellau atebolrwydd.

**Argymhelliad 4:** Mae'r diwylliant yn GIG Cymru yn cael ei nodweddu gan reoleiddio, barnu ac ymyrraeth sy'n gysylltiedig â methiant. Dylem hyrwyddo diwylliant sy'n seiliedig ar gymorth, ymyrraeth gynharach, a gwelliant.

- Mae arweinyddiaeth dosturiol yn hanfodol ac wedi cael ei mabwysiadu fel dull gweithredu ar draws GIG Cymru, ond credwn fod angen rhagor o waith er mwyn i'r dull hwn ennill ei blwyf yn ymarferol.
- Mae lle ar gyfer adolygiad tymor hwy o'r arolygiaethau, a byddwn yn ystyried sut y gellir bwrw ymlaen â hyn.
- Byddwn yn parhau i gefnogi twf Llais.
- Rydym yn adolygu'r canllawiau a'r cyngor sy'n ymwneud â'r broses o reoli perfformiad a safonau ar gyfer aelodau anweithredol o'r bwrdd gyda'r nod o ddatblygu trefniadau newydd a chanllawiau arferion da i annog craffu a herio adeiladol ynghylch cyflawni cynlluniau sefydliadau, amcanion cadeiryddion a gwasanaethau o ansawdd. Byddwn yn ystyried sut y gallwn wella'r ffordd y mae amcanion cadeiryddion yn cael eu gosod i sicrhau atebolrwydd clir.

**Argymhelliad 5:** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet allu dwyn byrddau ac ymddiriedolaethau i gyfrif mewn cyfarfodydd atebolrwydd cyhoeddus blynyddol. Dylai'r agenda ar gyfer y cyfarfodydd hyn gael ei llywio gan y blaenoriaethau y cyfeirir arnynt uchod.

- Rydym yn cydnabod gwerth atebolrwydd cyhoeddus a byddwn yn archwilio ymhellach sut i gyflawni hyn, gan fanteisio ar dystiolaeth gan GIG yr Alban.

**Argymhelliad 6:** Mae angen sicrhau bod arweinyddiaeth a datblygu pobl yn fuddsoddiad craidd wrth greu GIG Cymru sy'n perfformio'n dda.

- Rydym yn credu mewn datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer gweithlu'r GIG a byddwn yn parhau i fuddsoddi ynddo.
- Byddwn yn archwilio rhaglen bwrpasol o ddatblygu proffesiynol parhaus ar gyfer cadeiryddion y GIG, darpar gadeiryddion ac aelodau'r bwrdd a dull gweithredu “unwaith i Gymru”.

- Rydym wedi ymrwymo i ehangu cynrychiolaeth ar fyrddau gan gynnwys yn unol â'n *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*, er enghraifft drwy Raglen Darpar Aelodau Bwrdd.
- Mae *Canllaw Llywodraethu Da GIG Cymru* yn nodi priod rolau a chyfrifoldebau cadeiryddion a phrif weithredwyr y GIG. Bydd y canllaw yn cael ei ddiweddaru.
- Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i symleiddio a gwella'r broses penodiadau cyhoeddus yn y GIG i fynd i'r afael â llawer o'r pryderon a bydd y broses wella hon yn parhau. Mae gan Gomisiynwyr Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth y DU rôl bwysig yn y broses hon i roi sicrwydd annibynnol.
- Mae gwaith ar y gweill i adolygu ac adnewyddu'r broses gynefino ar gyfer byrddau'r GIG ac i adolygu rôl a phwrpas hyrwyddwyr byrddau.

**Argymhelliad 7:** Bydd cyfranogiad cleifion a'r cyhoedd yn y gwaith o gyd-gynhyrchu gwasanaethau'r GIG yn arwain at ganlyniadau gwell.

- Mae angen gwaith tymor hwy ac ar y cyd, ond mae gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG rôl i wella ymgysylltiad i sicrhau eu bod yn cael sgwrs ddilys a pharhaus gyda'r cyhoedd, nid yn unig yng nghyd-destun newidiadau i wasanaethau, sy'n helpu i lywio ac arwain darparu a chynllunio gwasanaethau.